


# Rheolau am Geisiadau i Gydnabod Cyrff Dyfarnu

MEHEFIN 2017



## **Rheoli fersiynau**

Cymeradwywyd y fersiwn (2) hon o Reolau Cymwysterau Cymru am Geisiadau i Gynabod Cyrff Dyfarnu 20 Mehefin 2017. Mae'r fersiwn hon yn disodli fersiwn 1, a gymeradwywyd ar 25 Medi 2015.

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n ffurfiol o leiaf unwaith bob dwy flynedd a bydd y broses yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd y rheolau a pha mor gyfredol yw'r ddogfen. Disgwylir iddi gael ei hadolygu nesaf erbyn 30 Mehefin 2022 fan bellaf. Croesewir adborth gan y cyhoedd ar y ddogfen reoleiddio hon yn y cyfamser. Dylech anfon eich sylwadau i [policy@qualificationswales.org](mailto:policy@qualificationswales.org)

## **Egwyddorion Cyffredinol y Rheolau am Geisiadau i Gydnabod Cyrff Dyfarnu**

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at unrhyw gorff sy'n awyddus i wneud cais i Cymwysterau Cymru i ddod yn gorff dyfarnu cydnabyddedig ac i gael ei gymwysterau wedi'u rheoleiddio yng Nghymru. O dan adran 10 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i ni lunio rheolau ynghylch cyflwyno ceisiadau i ni mewn perthynas â chydabod corff dyfarnu. Nod y rheolau yw darparu'r canlynol:

- eglurder i ymgeiswyr o ran y wybodaeth sydd ei hangen ar Cymwysterau Cymru er mwyn gallu ystyried p'un a ellir cydnabod corff; a
- eglurder i ymgeiswyr o ran y broses ar gyfer gwneud cais am gydnabyddiaeth

Cyn gwneud cais, dylai ymgeiswyr ddarllen y ddogfen hon ar y cyd ag unrhyw ddogfennau cyhoeddus o blith yr isod:

- Meini Prawf ar gyfer Cydnabod Corff
- Amodau Cydnabod Safonol
- Meini Prawf Cymeradwyo
- Amodau Cymeradwyo
- Meini prawf ar gyfer dynodi cymhwyster

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn bennaf â cham 1 o'r broses gwneud cais. Os bydd ymgeisydd yn llwyddo yn ystod cam 1, bydd Cymwysterau Cymru yn darparu rhagor o fanylion am gam 2 o'r broses.

### **CONTENTS**

#### **CYDNABOD CRYFF DYFARNU**

#### **SUT I WNEUD CAIS**

#### **DOD Â'CH COFRESTRIAD I BEN NEU EI DDIWYDIO**

## Cydnabod corff dyfarnu

Er mwyn cynnig cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru.

Cyn y gellir cydnabod corff dyfarnu, rydym yn ei ystyried yn erbyn ein meini prawf cydnabod statudol.

Mae ein Meini Prawf Cydnabod ar gael l **yma**<sup>1</sup>.

Fel darpar gorff dyfarnu cydnabyddedig, bydd yn rhaid i chi ddangos y gallwch fodloni'r holl feini prawf cydnabod perthnasol yn ogystal â'r rheoliadau perthnasol a fyddai'n gymwys i chi a'ch cymwysterau.

Mae'r rheolau ynghylch gwneud ceisiadau am gydnabyddiaeth corff dyfarnu ar gael yn y rhan nesaf.

## Sut i wneud cais

Os hoffech wneud ymholiad ynglŷn â chael eich cydnabod, e-bostiwch **[recognitionandapproval@cymwysteraucymru.org](mailto:recognitionandapproval@cymwysteraucymru.org)**.

Ar ôl i chi roi gwybod i ni eich bod yn dymuno bod yn gorff dyfarnu cydnabyddedig, gofynnir i chi gwblhau ffurflen ymholiad ffurfiol fel y gallwch nodi eich rhesymau pam eich bod eisiau cael eich cydnabod.

Ein nod yw adolygu'r ffurflen ymholiad a gwblhawyd gennych o fewn 10 diwrnod gwaith i'w derbyn ac efallai y byddwn yn eich gwahodd i drafod eich rhesymau penodol dros wneud cais â ni.

Os ydych am fwrw ymlaen ar ôl ein trafodaeth, gofynnwn i chi gyflwyno eich ffurflen gais am gydnabyddiaeth wedi'i chwblhau yn ffurfiol.

Byddwn yn eich cefnogi i lanlwytho unrhyw dystiolaeth ategol yr hoffech ei chyflwyno ochr yn ochr â'ch ffurflen gais.

Ar ôl ei chyflwyno, byddwn yn adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd gennych yn erbyn ein Meini Prawf Cydnabyddiaeth er mwyn gwneud penderfyniad o fewn 40 diwrnod gwaith.

---

<sup>1</sup> <http://qualificationswales.org/regulation/awarding-body-recognition/?lang=en>

Os na fyddwch wedi bodloni gofynion ein Meini Prawf Cydnabod, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio pam ein bod wedi gwrthod eich cais.

Ar ôl ystyried ein hadborth, mae croeso i chi wneud cais arall.

Os byddwch wedi bodloni ein meini prawf, byddwn yn eich cydnabod yn ffurfiol fel corff dyfarnu yng Nghymru. Byddwch yn gallu nodi bod Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio'r holl gymwysterau cydnabyddedig a gynigir gennych.

## **Dod â'ch Cofrestrriad i Ben neu ei Ddiwygio**

Os ydych am i ni beidio â rheoleiddio rhai neu bob un o'ch cymwysterau, bydd angen i chi 'ildio' eich cofrestrriad. Mae ildio'n broses wirfoddol, ffurfiol ac mae'n rhaid gwneud hynny gan gydymffurfio â'r gofynion a bennwyd yn Amod D7 ein Hamodau Cydnabod Safonol.

### **Ildiad Rhannol**

Gallwch roi gwybod i ni am eich bwriad i ildio eich cydnabyddiaeth i gynnis cymwysterau penodol a/neu ddisgrifiadau o gymwysterau. Yn yr achos hwn, byddwn yn cael gwared ar y cymwysterau cytûn o gwmpas eich cydnabyddiaeth a byddwch yn parhau i gael eich cydnabod fel corff dyfarnu gyda ni.

### **Ildiad Llwyf**

Gallwch hefyd roi gwybod i ni eich bod am ildio eich cydnabyddiaeth fel corff dyfarnu'n llwyf. Pan fydd y broses hon wedi'i chwblhau, ni fyddwch yn cael eich cydnabod gennym mwyach ac ni fyddwch yn gallu cynnis cymwysterau rheoleiddiedig i ddysgwyr yng Nghymru.

Er mwyn dechrau'r naill broses neu'r llall, e-bostiwch [recognitionandapproval@cymwysteraucymru.org](mailto:recognitionandapproval@cymwysteraucymru.org) a byddwn yn trafod eich cynlluniau chi a'n gofynion ni.